# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Stewart** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Price** |
| **Cynghorwyr**: | J.Harvey a/ac S.K.Hunt |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | A.Edwards a/ac D.Clements |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | F.O'Brien, M.Nicholls, W.Walters, T.Jones, C.Griffiths, C.Moore, K.Tillman, S.Aldred-Jones, R.Brown, S.Davies, H.Hasan, N.Pearce, D.Thomas, M.Wade, A.Williams, R.Moxey, A.Phillips a/ac C.Plowman |
| **Cynghorwyr Allanol:** | L.White |

---

## 1. CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd yr Aelod canlynol gysylltiad personol ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. J Harvey | Mewn perthynas ag Eitem rhif 6 ar yr Agenda gan ei fod yn adnabod rhai o'r bobl a benodir o swydd broffesiynol flaenorol |

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024 fel cofnod cywir.

4. **DIWEDDARIAD YR IS-BWYLLGOR – CYNLLUNIO STRATEGOL (YMGYNGHORIAD)**

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar ddatblygiad y Cynllun Datblygu Strategol y mae'n ofynnol i bob un o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru ei gynhyrchu.

Soniwyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn y gorffennol, gan nodi nad oedd Swyddogion ar draws y rhanbarth yn barod i ddechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol heb ddigon o adnoddau. O ran ymateb, nodwyd bod y Gweinidog ar yr adeg hynny wedi datgan y gellid defnyddio unrhyw arian sbâr a oedd yn weddill ar ôl paratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol. Fodd bynnag, nid oedd y cyllid a ddarparwyd ar gyfer datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ddigonol, ac roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw gyllid yn weddill.

Tynnodd yr adroddiad a ddosbarthwyd sylw at y gost a ragwelir ar gyfer datblygu'r Cynllun Datblygu Strategol dros y cyfnod o bum mlynedd sef tua £2.5 miliwn. Byddai'r arian hwn yn talu am staff a gwasanaethau arbenigol, ac roedd hyn yn cynnwys chwe aelod o staff sy'n gwasanaethu'r rhanbarth cyfan.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch Canllawiau'r Cynllun Datblygu Strategol a oedd yn cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru, a dylai hyn fod wedi'i chyhoeddi yn gynharach yn y flwyddyn. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd y Canllawiau wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn.

O ran y sefyllfa bresennol, dywedwyd wrth swyddogion i beidio â symud ymlaen â'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol yn absenoldeb y Canllawiau a'r cyllid priodol i gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol. Esboniwyd ei fod yn broses ddrud i'w chyflawni, ac roedd diffyg adnoddau hefyd o ran staffio. Ar hyn o bryd nid oedd cynghorau ar draws y rhanbarth yn gallu adleoli staff i ymgymryd â'r gwaith hwn oherwydd y gwaith i ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd. Nodwyd y byddai Swyddogion yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am yr adnoddau angenrheidiol i gyflwyno'r Cynllun Datblygu Strategol.

Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn ymgynghori â Chyd-bwyllgorau Corfforedig eraill yng Nghymru. Roedd y drafodaeth ddiweddaraf yn ymwneud ag ysgrifennu llythyr ar y cyd at Lywodraeth Cymru gyda'r pwrpas o lobïo am gyllid priodol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru wedi derbyn

cadarnhad gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Doedd swyddogion heb dderbyn ymateb gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd hyd yn hyn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod peidio â symud ymlaen â'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol yn torri deddfwriaeth. Fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes, nid oedd yn ymarferol symud ymlaen â'r gwaith hwn heb dderbyn y dogfennau angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn y datganiad uchod ynghylch goblygiadau cyfreithiol, gofynnodd yr Aelodau beth fyddai swyddogion yn cynghori y dylent ei wneud pe bai'r ddogfennaeth ar gael ond nid y cyllid. Esboniwyd unwaith y bydd Canllawiau'r Cynllun Datblygu Strategol wedi'u paratoi, byddai Llywodraeth Cymru'n eu rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyn iddynt gyhoeddi'r fersiwn derfynol.  Unwaith y bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi byddai'r risg yn cynyddu pe bai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn methu â chyflwyno'r Cynllun Datblygu Strategol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill yng Nghymru yn yr un sefyllfa gan fod Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru'n helpu i reoli'r risg.

Cyfeiriwyd at lobïo Llywodraeth Cymru a phwysigrwydd gwneud hynny'n wleidyddol a thrwy Swyddogion. Roedd Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru hefyd yn fodlon lobïo Llywodraeth Cymru, ar ran Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel rhan o'u rôl fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o eglurder ynghylch goblygiadau cyfreithiol a'r cynlluniau wrth symud ymlaen. Esboniwyd bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhaglen gyflawni fod ar waith erbyn amserlen benodol.  Mae'r ffaith na fydd y rhaglen gyflawni hon ar waith o safbwynt De-orllewin Cymru, yn golygu bod posibilrwydd y gellid herio'r rhanbarth. Yn fwy penodol, soniwyd y byddai'r her ar ffurf adolygiad barnwrol o benderfyniad Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru i beidio â rhoi cynllun cyflawni ar waith erbyn y dyddiad priodol hwnnw. Fodd bynnag, oherwydd nad oedd y canllawiau ar gael, gellid cynnig mesurau lliniaru a dadlau da i geisio herio penderfyniad yn hynny o beth. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddiwygio eu rheoliadau i roi rhagor o amser i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig roi'r elfennau hyn ar waith. Roedd hwn yn ddatrysiad y gellid ei gynnig wrth i drafodaethau barhau ynghylch cyllid ac ati.

Awgrymwyd y gallai hyn fod yn bwynt i'w gynnwys yn y llythyr ar y cyd at Lywodraeth Cymru gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Yn dilyn yr uchod, cadarnhaodd swyddogion fod y gwaith lobïo wedi dechrau ennill momentwm mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.  Roedd Llywodraeth Cymru'n dechrau deall y problemau roedd Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu, a dyna pam ei bod yn bwysig parhau i lobïo am y cyllid priodol. Yn ogystal â'r diffyg cyllid, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod hefyd ddiffyg swyddogion cynllunio cymwys a phrofiadol. Roedd angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig lobïo'r byd academaidd hefyd i sicrhau y byddai digon o raddedigion cynllunio i helpu i gyflawni dyheadau gofodol ar draws y rhanbarth ac mewn awdurdodau unigol wrth symud ymlaen. Soniwyd bod Swyddogion wedi ystyried a ellid defnyddio rhai staff o bob Awdurdod Lleol yn y rhanbarth sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i ddechrau cyflwyno'r Cynllun Datblygu Strategol.  Gofynnodd swyddogion i Lywodraeth Cymru a oedd modd oedi proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i ganolbwyntio ar y Cynllun Datblygu Strategol, a'r ateb i hynny oedd 'na'.

**PENDERFYNWYD:**

- Nodi'r trosolwg o'r broses o wneud y gwaith sy'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021, yn benodol yr anawsterau o ran cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol.
- Caniatáu ymgysylltu pellach â Llywodraeth Cymru ac Ysgrifenyddion y Cabinet, i gynghori ar y cynnydd a'r heriau i gyfyngu ar unrhyw gamau yn erbyn Cyd-bwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol De-orllewin Cymru am unrhyw doriadau posib.
- Rhoi awdurdod i Gadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru gytuno ar lythyr ar y cyd rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol eraill i dynnu sylw at heriau o'r fath ar ran yr holl Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.

## 5. <u>CYNLLUN DIRPRWYO</u>

Cyflwynwyd cynllun dirprwyo arfaethedig i'r aelodau ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Esboniodd swyddogion fod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wnaed ers sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun.  Fodd bynnag, erbyn hyn mae materion gweithredol y mae angen i swyddogion eu datblygu wrth i'r

gwaith sy'n gysylltiedig â Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru symud ymlaen. Nodwyd, bod Swyddogion yn cynnig cynllun dirprwyo i gefnogi hyn. Bydd hyn hefyd yn sicrhau tryloywder priodol o ran sut roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y cynllun dirprwyo arfaethedig wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r system y byddai Swyddogion yn ei dilyn a'r gwaith cadw cofnodion a fyddai'n cael ei sefydlu, yn ogystal â phryd y cynhelir ymgynghoriad â'r Swyddogion arweiniol priodol a'r Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

- Cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo, a gyflwynwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.
- Rhoi awdurdodiad i'r Swyddog Monitro wneud unrhyw fân ddiwygiadau sy'n ofynnol er eglurder neu gysondeb.
- Cytuno i adolygu'r Cynllun Dirprwyo ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru i sicrhau ei fod yn effeithiol.

6. **<u>BWRDD CYNGHORI'R SECTOR PREIFAT - CADARNHAU PENODIADAU</u>**

Cyflwynwyd y diweddaraf o ran penodi ymgynghorwyr ychwanegol i gefnogi Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch datblygu'r materion hyn gan fod yr ymgynghorwyr wedi cael eu cytuno'n ffurfiol. Un o'r camau cyntaf fyddai cynnal cyfarfod rhagarweiniol ym mis Ionawr 2025, lle bydd cylch gorchwyl a dyletswyddau'r ymgynghorwyr hynny'n cael eu hegluro.

**PENDERFYNWYD:**

- Nodi bod pedwar ar ddeg o ymgynghorwyr ychwanegol wedi derbyn cynnig i gefnogi Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, yn amodol ar y Cytundeb Cynghori.
- Nodi'r rhestr gyflawn o Ymgynghorwyr, a amlinellir yn Atodiad C yr adroddiad a ddosbarthwyd (yn amodol ar dderbyn y Cytundeb Cynghori).
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a Swyddog Monitro Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru sicrhau bod mesurau

addas a digonol yn cael eu mabwysiadu i sicrhau cydymffurfiaeth wrth weithio ar y cyd ag Ymgynghorwyr i ddatblygu Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat.

- Rhoi awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a Swyddog Monitro Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru gadw'r hawl i dynnu'r cynnig/cynigion penodi yn ôl lle na dderbynnir y Cytundeb Cynghori neu os nad yw'r meini prawf wedi'u bodloni.
- Rhoi'r awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a Swyddog Monitro Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru gyhoeddi manylion Cynghorwyr, sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad C yr adroddiad a ddosbarthwyd, gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y bobl a benodir, i hyrwyddo datblygiad Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

## 7. MONITRO ARIANNOL CHWARTER 2 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad Monitro Ariannol Chwarter 2 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024/25 i'r aelodau.

Tynnodd y Prif Swyddog Cyllid sylw at y pwyntiau allweddol ym manylion yr adroddiad a ddosbarthwyd. Un o'r pwyntiau hyn oedd bod y sefyllfa alldro rhagweledig yn nodi gwarged ar ddiwedd y flwyddyn. Gellir gweld crynodeb o'r sefyllfa gyffredinol yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y ffrydiau gwaith unigol a'u heffaith ar yr alldro. Cadarnhawyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi derbyn grant trafnidiaeth gwerth £100k gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi'i ddyrannu a'i ymrwymo. Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi bod gwariant yr Is-bwyllgor yn dangos y rhagwelir tanwariant o £86.7k, mewn perthynas â thanwariant ar gynllunio a rheoli rhaglenni. Disgwylir hyn yn rhannol ar y sail bod y dyraniad a neilltuwyd yn arian wrth gefn yn y gyllideb, gan nad oedd swyddogion yn gwybod sut roedd y ffrydiau gwaith yn mynd i ddatblygu yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Esboniwyd wrth bennu'r gyllideb, roedd Swyddogion yn ystyried cyfraniad gan gronfeydd wrth gefn tuag at yr ardollau i geisio cadw'r ardollau ar lefel fwy boddhaol. Ni fyddai angen i swyddogion ddefnyddio'r swm a gyflwynwyd o'r ardollau oherwydd y gwarged. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y bydd balans o £179k erbyn diwedd y flwyddyn i'w drosglwyddo. Caiff hyn ei nodi o fewn y cronfeydd wrth

gefn, a chaiff y gwarged ei ychwanegu at y gwarged cronnus a fydd yn cael ei drosglwyddo ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol.

Holodd yr Aelodau a oedd y cyllid grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i dargedu'n benodol neu a ellid ei ddefnyddio mewn mannau eraill o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Cadarnhawyd bod cyllid yn cael ei dargedu'n benodol. Wrth lofnodi'r cais am grant, mae Swyddogion yn ymrwymo i ddefnyddio'r cyllid mewn perthynas â'r hyn a nodwyd yn yr amodau a thelerau. Fodd bynnag, soniwyd bod cyfle bob amser i drafod y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru pe bai'r sefyllfa hon yn codi.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r adroddiad.

8. **<u>GRANTIAU TRAFNIDIAETH LLYWODRAETH CYMRU - CEISIADAU AWDURDODAU LLEOL AM GYLLID</u>**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y ceisiadau arfaethedig a gyflwynwyd ar gyfer Grantiau Trafnidiaeth i Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno nifer o gynlluniau a mentrau trafnidiaeth.

Esboniwyd bod proses ymgeisio am grant trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wybod am y ceisiadau a gyflwynwyd gan bob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yn y rhanbarth. Yn ogystal â hyn, cadarnhaodd Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fod y cynllun neu'r fenter yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg.

Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith bod y cynlluniau wedi'u rhestru yn Atodiad B yr adroddiad a ddosbarthwyd.  Rhannwyd y manylion fesul Awdurdod Lleol ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd a chyllid.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder pellach o ran llwyddiant posib y ceisiadau amrywiol a restrir, a chadarnhawyd na fydd rhai o'r ceisiadau'n llwyddiannus. Roedd y cyllid yn nodi y bydd nifer y ceisiadau llwyddiannus y lleihau tua 50% o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Dywedwyd mai'r ceisiadau a gynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd oedd y rhai cryfaf gan bob un o'r Awdurdodau Lleol ar draws y rhanbarth ac roeddent yn cyd-fynd â'r amcanion allweddol.

Roedd swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i gael cyfiawnhad cryf yn erbyn y meini prawf.

Ychwanegwyd bod Swyddogion yn gobeithio cael cadarnhad o ganlyniad y broses hon ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Yna, bydd gwaith yn gallu dechrau ar ymagweddau cyflenwi er mwyn cyflwyno'r cynlluniau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

O ran heriau, nodwyd bod rhai ceisiadau mwy sy'n gweithredu dros gyfnod sy'n fwy na blwyddyn ac efallai na fydd sicrwydd y bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Cydnabu'r Pwyllgor yr anawsterau o ran arian cyfatebol a wynebwyd gan Awdurdodau Lleol o ran y prosiectau hyn. Cytunwyd y dylid ysgrifennu llythyr at y Gweinidog Trafnidiaeth er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Cydnabod bod y cynlluniau a'r mentrau trafnidiaeth, a gynhigiwyd eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Grant Trafnidiaeth, yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg.

## 9. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 10. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**